Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Caerphilly County Borough Council

Ysgol Gynradd y Twyn
Parth Cerddwyr a Beicwyr Arbrofol - Caerffili Gorchymyn Traffig 2020

HYSBYSIR drwy hyn fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, wrth weithredu ei bwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd), yn bwriadu mewn nid llai na saith diwrnod o ddyddiad yr Hysbysiad hwn i wneud y Gorchymyn uchod, a fydd â'r effaith o:

Gwahardd unrhyw gerbyd modur (ac eithrio deiliaid Trwydded Parth yr Ysgol ar gyfer Parth ZT a Deiliaid Bathodyn Person Anabl) rhag mynd i mewn i, neu fynd ar hyd, Southern Street (rhwng y gyffordd â Van Road a'r gyffordd ag East View), East View (rhwng y gyffordd â Van Road a'r gyffordd â Lôn-y-twyn), lôn gefn Van Road rhwng East View a Southern Street, a lôn gefn Southern Street rhwng tai eilrif 2 - 14, yn ystod tymor yr ysgol, o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8.35 - 9.10am a 2.45 - 3.30pm.

Bydd y Gorchymyn arbrofol am gyfnod o ddeunaw mis o 2 Medi 2020 ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd y Cyngor yn ystyried a fydd darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn parhau i fod mewn grym am gyfnod amhenodol, a gall y Pennaeth Isadeiledd, gan weithredu ar ran y Cyngor, wneud unrhyw newidiadau perthnasol yn ôl yr angen, am resymau diogelwch, neu derfynu'r arbrawf os bydd angen gwneud hynny, yn ei farn ef, o fewn y chwe mis cyntaf.

Gellir archwilio copi o'r Gorchymyn arfaethedig, datganiad gan y Cyngor o'i resymau dros wneud y Gorchymyn a mapiau'n dangos y darnau o ffordd dan sylw ar wefan y Cyngor:
www.caerffili.gov.uk/GorchmynionRheoleiddioTraffig

Gellir cael rhagor o wybodaeth gan yr Isadran Rheoli Traffig ar **01443 866527** neu e-bost **swarbt@caerffili.gov.uk**

Os ydych am wrthwynebu gwneud y Gorchymyn hwn at ddibenion parhad amhenodol, dylech wneud unrhyw wrthwynebiad yn ysgrifenedig, gan nodi'r rhesymau dros wneud hynny, i **jameshm@caerffili.gov.uk** o fewn chwe mis i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

Os ydych am godi amheuaeth ynghylch dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau ynddo, ar y sail nad yw'n unol â'r pwerau a roddir o dan y Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd, neu ar y sail nad yw'n cydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o ofynion y Ddeddf honno neu ag offeryn sydd wedi'i wneud o dani mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch o fewn chwe wythnos i'r dyddiad isod wneud cais i'r Uchel Lys i'r diben hwn.

Gall yr ohebiaeth gael ei datgelu yn unol â gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Dyddiedig 25 Awst 2020

Marcus Lloyd - Pennaeth Isadeiledd, Tŷ Tredomen, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7WF

The Twyn Primary School
Experimental Pedestrian and Cycle Zone - Caerphilly Traffic Order 2020

NOTICE is hereby given that Caerphilly County Borough Council in exercise of its powers under the Road Traffic Regulation Act 1984 (as amended) intends in not less than seven days from the date of this Notice to make the above order, the effect of which will be to:

Prohibit any motor vehicle (except School Zone Permit holders for Zone ZT and Disabled Persons Badge Holders), from entering or proceeding along Southern Street (between its junctions with Van Road and East View), East View (between its junctions with Van Road and Lon-y-Twyn), Van Road rear lane between East View and Southern Street and Southern Street rear lane between even house numbers 2 - 14, during school term-time, Monday to Friday, 8.35 - 9.10am and 2.45 - 3.30pm.

The experimental Order will be for a period of eighteen months during from 2nd September 2020 which time the Council is to consider whether the provisions of this Order shall continue in force indefinitely and the Head of Infrastructure acting on behalf of the Council may make any relevant changes as necessary, on safety grounds, or terminate the experiment if, in his opinion, the need arises within the first six months.

A copy of the proposed Order, a statement of the Council's reasons for making the Order and maps showing the affected lengths of roads may be inspected on the Councils website at:
www.caerphilly.gov.uk/TrafficRegulationsOrders

Further information can be obtained from the Traffic Management Section, telephone **01443 866527** or email **swarbt@caerphilly.gov.uk**

If you wish to object to the making of this Order for the purpose of indefinite continuation you should make any objection in writing stating the grounds on which your objection is made to **jameshm@caerphilly.gov.uk** no later than six months of this Order coming into force.

If you wish to question the validity of the Order, or any provisions contained within it on the grounds that they are not within the powers conferred by the Road Traffic Regulation Act, or on the grounds that any requirement of that Act or instrument made under it has not been complied with in relation to the Order, you may within six weeks from the date below apply to the High Court for this Purpose.

Correspondence may be disclosed as required by the Freedom of Information Act 2000.

Dated 25th August 2020

Marcus Lloyd - Head of Infrastructure, Tredomen House, Tredomen Park, Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7WF